



Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol
ac Economaidd a Data Cymru

Wales Institute of Social and
Economic Research and Data

CIPOLWG

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022





Mae WISERD yn cynnal Canolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD ledled y DU, buddsoddiad mawr gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC).

Mae Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) yn sefydliad ymchwil cenedlaethol, rhyngddisgyblaethol yn y gwyddorau cymdeithasol.

Rydym wedi ein dynodi'n ganolfan ymchwil genedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Gan ddefnyddio dulliau arloesol, mae ein hymchwil yn cwmpasu economeg, cymdeithaseg, daearyddiaeth a gwyddoniaeth wleidyddol.

Rydym yn fenter ar y cyd rhwng prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe – ac yn cydweithio i wella safon a maint ymchwil y gwyddorau cymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt. Mae ein gwaith ymchwil yn ysgogi newid drwy ddylanwadu ar ddatblygiad polisiâu ac arferion ar draws ystod o sectorau.

Ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae WISERD yn cynnwys Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru.

Mae WISERD hefyd yn gartref i ADR Cymru (Ymchwil Data Gweinyddol Cymru) – cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Ysgol Meddygaeth Prifysgol Abertawe a WISERD ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ADR Cymru yn rhan o ADR y DU (Ymchwil Data Gweinyddol y DU) a ariennir gan yr ESRC.

Data am gyhoeddiadau WISERD ar dudalen 10, wedi'i ddarparu gan Elsevier: www.elsevier.com.



Adroddiad y Cyfarwyddwr

Mae'n bleser gennyf roi gwybod bod 2021 wedi bod yn flwyddyn gynhyrchol iawn i WISERD. Er ein bod yn cydnabod yr heriau y mae pawb wedi'u hwynebu yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol cymhleth sy'n gysylltiedig â'r ymateb i'r pandemig COVID-19. Drwy gynnal ein partneriaethau cryf yn y DU ac yn rhyngwladol, mae WISERD mewn sefyllfa dda o hyd i wneud cyfraniad gwerthfawr i gymdeithas fel canolfan ymchwil genedlaethol bwysig, ac mae ein gwaith wedi parhau i lywio polisi ac arfer yng Nghymru a thu hwnt.



O ystyried llawer o'n profiadau diweddar o weithio o bell, rydym yn falch o fod yn arwain y ffordd mewn ymchwil ar weithio gartref yn ystod y pandemig a beth mae hyn yn ei olygu i weithio hyblyg wrth symud ymlaen. Cyfeiriwyd at adroddiad yr Athro Alan Felstead o Brifysgol Caerdydd gyda Darja Reuschke (Prifysgol Southampton) ar Homeworking in the UK: Before and During the 2020 Lockdown mewn ymgynghoriad gan y llywodraeth yn 2021, sef Gwneud gweithio'n hyblyg yn drefn gyffredin. Caiff llyfr newydd yr Athro Felstead, Remote Working: A Research Overview ei gyhoeddi gan Routledge yn y flwyddyn i ddod.

Yn ogystal â gwaith parhaus ein tîm yng Nghaerdydd gyda'r *Ganolfan Cynhyrchiant Canlyniadau Arferion, Ymgysylltu a Dysgu yn y Gweithle* (PROPEL), mae'r Athro Mike Woods, cyd-gyfarwyddwr ym Mhrifysgol Aberystwyth, wedi ymrwmo i bartneriaeth â *Fforwm Cynhyrchiant Cymru (Sefydliad Cynhyrchiant UKRI)*, sefydliad ymchwil ledled y DU sy'n archwilio beth mae cynhyrchiant yn ei olygu i fusnesau, i weithwyr ac i gymunedau – sut y caiff ei fesur, a sut mae'n cyfrannu'n wirioneddol at well safonau byw a lles.

Gwnaeth gweithio gartref barhau i fod 'y norm' yn 2021, ac felly hefyd addysg yn y cartref. Darganfuom fwy am brofiadau disgyblion o hyn yn wythfed a nawfed rownd Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD (WMCS). Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a adroddodd disgyblion i ni eleni drwy edrych ar y ddwy set ddiweddaraf o gardiau post rydym wedi'u cynhyrchu, y gellir eu gweld ar ein gwefan, www.wiserd.ac.uk/cy, neu eu harchebu drwy e-bost: wiserd@cardiff.ac.uk.

Mae ymchwil addysg bellach yn mynd rhagddo yn Lab Data Addysg WISERD, gan gynnwys y prosiect *Gwaharddiadau Ysgolion* a ariennir gan ESRC a dadansoddiad o ddata'r *Platfform Dysgu Hwb*, gan gynnwys datblygu dangosfwrdd

data. Gwnaethom hefyd gymryd rhan ym mhrosiect ymchwil Covid-19 rhyngwladol *Children's Worlds*, drwy gyfrannu sampl o dros 800 o blant o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru.

Heb y posibilrwydd o gynnal Cynhadledd Flynyddol arferol WISERD yn 2021, penderfynwyd cynnal Cyfres Haf ar-lein, a oedd yn cynnwys pedwar digwyddiad ar-lein a lansiad dau rwydwaith ymchwil newydd: y Rhwydwaith Lles a Rhwydwaith Ymchwil Ymfudo Cymru. Rydym yn ddiolchgar i Dr Gwennan Higham o Brifysgol Abertawe am ei phrif annerchiad rhagorol: *Ymfudo rhyngwladol yng Nghymru: cenedl sy'n lloches mewn amgylchedd gelyniaethus*.

Elfen arall o'n gwaith seilwaith data ac integreiddio data yw ein gwefan Deall Lleoedd Cymru, a lansiwyd yn 2019, a ariennir gan Ymddiriedolaeth Carnegie UK a Llywodraeth Cymru, ac a reolir gan y Sefydliad Materion Cymreig. Roedd y diweddariad ym mis Rhagfyr yn cynnwys adran newydd ar 'gysylltedd'. Mae hyn yn galluogi defnyddwyr i archwilio pa mor gysylltiedig yw un lle i'r llall ac a yw'n debygol o fod yn hunangynhaliol neu'n ddibynnodol ar wasanaethau ac asedau mewn mannau eraill. Mae'r tîm wedi rhyddhau gweminar ddefnyddiol i'ch helpu i ddysgu sut i ddefnyddio'r wefan, y gallwch ei gwyllo ar ein gwefan: www.wiserd.ac.uk/cy. Bydd gallu cael gafael ar dystiolaeth ddibynadwy am leoedd yng Nghymru yn hanfodol i gynlluniau adfer ar ôl y pandemig.



Ni fu modd i'n cynhadledd economi sylfaenol flynyddol, Adnewyddu sylfaen: Trawsnewid Systemau Dibyniaeth yn sgil COVID-19 fynd yn ei blaen wyneb yn wyneb chwaith, ond ni wnaeth hynny atal dros 100 o ymchwilwyr, ymarferwyr a llunwyr polisi o bob cwr o'r byd rhag dod at ei gilydd ar-lein i drafod sut y gellir ailadeiladu, gwella a chynnal yr economi sylfaenol mewn ymateb i heriau hen a newydd a amlygwyd gan y pandemig. Ymunodd Lee Waters AoS, y Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd, â ni hefyd. Gallwch ddarllen ei araith yn llawn ar ein gwefan www.wiserd.ac.uk/cy.

Yn ogystal â'n cynadleddau blynyddol, gwnaethom gynnal rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau ar-lein yn 2021. Mae hyn wedi ein galluogi i groesawu cynulleidfau ehangach o randdeiliaid nag erioed o'r blaen, o bob rhan o'r DU a thu hwnt. Gallwch ddarllen mwy am y rhain ar dudalen 12.

Traddodwyd darlith flynyddol Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru Prifysgol Aberystwyth, *Showing true colours: the changing politics of race equality in Wales*, gan yr Athro Charlotte Williams OBE a chafodd ei gwyllo ar-lein gan dros 130 o bobl. Archwiliodd y ddarlith gydraddoldeb hiliol ar draws 20 mlynedd o ddatganioli a thrafodwyd paratodau ar gyfer dad-wladoli o fewn addysg. Cynhaliodd Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru hefyd yr ail *Gynhadledd Graddedigion* ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig sy'n gwneud ymchwil ar Gymru.

Gyda'n rhaglen ymchwil cymdeithas sifil ddiweddaraf yn mynd rhagddi ers tipyn a rhai newidiadau i dîm ein canolfan yng Nghaerdydd, rydym wedi croesawu

llawer o gydweithwyr newydd i WISERD yn 2021 ac, wrth gwrs, wedi ffarfelio â rhai aelodau gwerthfawr o'r tîm hefyd. Daeth ein digwyddiad Diwrnodau Allan WISERD diweddaraf (a gynhaliwyd ar-lein hefyd) â chydweithwyr – ddoe a heddiw – ynghyd mewn sesiwn arbennig gyda'r Athro Emeritws Huw Beynon (Cyfarwyddwr WISERD 2008-2010) ar *The Shadow of the Mine: Coal and the End of Industrial Britain*.

Mae ein Grŵp Gweithredol hefyd wedi newid, ac mae'r aelodau presennol wedi ehangu eu gallu i gynnig arweiniad i sefydliadau allanol, y mae eu meysydd gwaith o bwys mawr iddynt. Penodwyd Dr Anwen Elias, cyd-gyfarwyddwr WISERD ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn Gomisiynydd i'r Comisiwn Annibynnol newydd ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. At hynny, gan barhau â'r thema gynharach, sef gwaith a marchnadoedd llafur, penodwyd yr Athro Jean Jenkins, cyd-gyfarwyddwr WISERD ym Mhrifysgol Caerdydd, i arwain comisiwn annibynnol, a sefydlwyd gan TUC Cymru, i ddyfodol hawliau cyflogaeth a datganoli yng Nghymru.

Rydym yn falch o groesawu Dr Mitchel Langford i rôl cyd-gyfarwyddwr WISERD ym Mhrifysgol De Cymru (PDC), yn dilyn ymddeoliad graddol yr Athro Steve Smith, a fydd yn parhau i arwain ein Rhwydwaith Lles newydd. Mae Dr Langford wedi bod yn ymwneud â WISERD ers dros ddegawd ac mae'n ychwanegiad rhagorol i Grŵp Gweithredol WISERD.

Y llynedd, cwblhaodd Dr Langford brosiect Cynllun Cymrodoriaeth Academaidd Ymchwil y Senedd yn edrych ar fynediad at wasanaethau bancio yng Nghymru. Ym mis Chwefror eleni, ochr yn ochr â chyd-gyfarwyddwr PDC, yr Athro Gary Higgs, fe'i gwahoddwyd i gyflwyno tystiolaeth

o'r adroddiad hwn i gyfarfod Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Senedd. Yn dilyn hyn, galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu a gwella mynediad at arian parod, ac i fapio'r bylchau mewn gwasanaethau bancio yn gyffredinol, argymhelliad sydd wedi'i dderbyn mewn egwyddor. Mae'r tîm yn PDC hefyd wedi cyhoeddi ymchwil yn ddiweddar ar 'ddaearyddiaeth gwirfoddoli yng Nghymru' – thema cymdeithas sifil arall sydd wedi dod i'r fei yn ystod y pandemig COVID-19.

Mae gwaith parhaus gan ein cydweithwyr WISERD ym Mhrifysgol Bangor yn cynnwys cefnogi ymchwil a chyfnewid gwybodaeth gyda'r sector cyfiawnder ieuencid ar draws gogledd Cymru. Mae cyd-gyfarwyddwr WISERD ym Mhrifysgol Bangor, yr Athro Martina Feilzer, yn darparu cymorth ymchwil i Wasanaethau Troseddau Ieuencid. Mae'r Athro Feilzer hefyd wedi bod yn rhan o Gynhadledd Plismona Flynyddol Cumberland Lodge, Towards Justice: Law Enforcement & Reconciliation, gyda'r adroddiad i'w lansio yn y Senedd yn y flwyddyn i ddod. Yr Athro Feilzer hefyd yw arweinydd Prifysgol Bangor ar gyfer Rhaglen Arweinyddiaeth Ymchwil newydd rhwng Aberystwyth a Bangor, a ddechreuodd ym mis Tachwedd 2021.

Mae wedi bod yn wych gweld gwaith Lab Byw Cymru yn cael ei gwblhau yn 2021 – yn rhan o'r prosiect *Rhagolygon Gwledig-Trefol: Datgloi Synergeddau* (ROBUST) ym Mhrifysgol Aberystwyth, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cafodd 'Gwledigaeth Wledig i Gymru', sef prif ffocws Lab Byw Cymru, ei chwblhau ar ddechrau'r flwyddyn a'i lansio gyda digwyddiad cyhoeddus ar-lein a chyhoeddiad adroddiad tystiolaeth dwyieithog. Mae'r gwaith wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau ac mae hyd



yn oed yn ganolbwynt i gyfres podlediad newydd, a gomisiynwyd gan Newyddion Busnes Cymru ac a gyflwynir gan y cyn-Brif Weinidog, Carwyn Jones.

Yn olaf, rwy'n falch iawn o ddweud bod ADR Cymru wedi cael £16,985,944 i barhau â'i waith tan 2026 fel rhan o fuddsoddiad £90m ADR UK ledled y DU, a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), sy'n rhan o UKRI. Wedi'i sefydlu yn 2018, mae ADR Cymru yn uno arbenigedd ymchwil o Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe a WISERD â dadansoddwyr o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'r bartneriaeth hon eisoes wedi galluogi Llywodraeth Cymru i ddeall mwy am y berthynas rhwng gwahanol feysydd o ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus a meithrin dealltwriaeth o brofiad pobl wrth iddynt symud drwy wasanaethau gwahanol.

Rwy'n gobeithio bod yr adroddiad hwn wedi rhoi cipolwg i chi ar ein gweithgareddau ymchwil drwy gydol 2021 ac y byddwch yn parhau i ddilyn ac ymgysylltu â'n gwaith dros y flwyddyn i ddod, sy'n addo bod yn un brysur. Yng Nghaerdydd, rydym yn paratoi i symud i sbarc | spark eleni. Wedi'i leoli ym mharc ymchwil gwyddorau cymdeithasol cyntaf y byd, byddwn yn gweithio ochr yn ochr ag ymchwilwyr gwyddorau cymdeithasol a chydweithredwyr allanol eraill fel y gallwn gydweithio i ddod o hyd i atebion i broblemau dybryd cymdeithas.

Mae datblygiadau'n digwydd ym Mhrifysgol Abertawe hefyd, lle mae Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol newydd yn cael ei ffurfio, lle caiff ymchwilwyr WISERD eu lleoli o hyn ymlaen. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos gydag ymchwilwyr eraill yn yr Ysgol

newydd ac i brosiectau WISERD ddod yn rhan ganolog o'u agenda ymchwil. .

Hwn fydd fy Adroddiad Cyfarwyddwr olaf, gan y bydd yr Athro Ian Rees Jones yn camu'n ôl fel Cyfarwyddwr WISERD yn 2022 – sy'n newyddion gwych i WISERD. Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am ein cynlluniau ymchwil ar gyfer y flwyddyn i ddod neu os hoffech gydweithio â ni ar brosiect, mae croeso i chi gysylltu ag Ian neu fi – byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Sally Power,
Cyfarwyddwr WISERD

Data ariannu ymchwil


Yn ystod 2021, gwnaeth WISERD gais am **24 o grantiau ymchwil** ar draws pob un o'r pum prifysgol bartner. Roedd hefyd yn rhan o geisiadau ymchwil, yn cynnwys y rhai hynny a arweiniwyd gan sefydliadau eraill, hyd at werth o **£39.8m**.

Cyfanswm y grantiau ymchwil a gafodd WISERD yn 2021 oedd **£3.2m**.

Cyllid newydd yn 2021

Daw dros **£2.7m** o'r cyllid hwn gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) ar gyfer nod Caerdydd o ADR Cymru (Ymchwil Data Gweinyddol Cymru).

Daw cyllid newydd arall gan y cyllidwyr canlynol:




Mae gan WISERD hanes rhagorol o ennill cyllid ymchwil cystadleuol. Yn 2021, gwnaethom lwyddo i sicrhau cyllid newydd gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector:





Ymchwil bresennol WISERD

Daeth gwerth ymchwil barhaus WISERD yn 2021 i gyfanswm o **£12.6m** ar draws **32 o grantiau ymchwil**.



Grantiau ymchwil a gafwyd rhwng 2011-21

Ers 2011, mae WISERD wedi cyflwyno **265 o geisiadau ariannu ymchwil** ar draws prifysgolion partner WISERD, gyda chyfradd **lwyddo o 55%**. Cyfanswm y grantiau ymchwil a gafwyd gan WISERD ers 2011 yw **£34.3m**.



Cysylltiadau rhyngwladol

Mae WISERD yn falch o fod wedi parhau i sefydlu llawer o gysylltiadau rhyngwladol, er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig â theithio oherwydd y pandemig COVID-19. Mae prosiectau a digwyddiadau ymchwil cydweithredol wedi parhau ar-lein ac mae rhai enghreifftiau o'r rhain i'w gweld isod.

Gwlad y Basg

Dan arweiniad Dr Igor Calzada, cynhaliodd cydweithwyr ym Mhrifysgol Caerdydd gyfarfod gyda 4GUNE (y Clwstwr Basgaidd ar gyfer Peirianeg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg). Prif nodau prosiect cydweithredu Cymru a Gwlad y Basg yw rhannu arfer da mewn perthynas ag ymgysylltu â phrifysgolion, a busnes a chymdeithas, a gweithio tuag at raglen gyfnewid ym mlwyddyn academiaidd 2022-2023. Hefyd, ym Mhrifysgol Aberystwyth, cynhaliwyd gweithdy ar-lein fel rhan o grant rhwydweithio SCoRE Cymru gyda Gwlad y Basg, ar ieithoedd lleiafrifol a datblygu cynaliadwy.

Santiago de Chile

Yn seiliedig ar waith parhaus ar y cyd â sefydliadau Mapuche trefol yn Santiago de Chile, cyflwynodd Dr Dana Brablecova o Brifysgol Bangor seminar amser cinio ar lwybrau arweinyddiaeth 'llywyddion' sefydliadol benywaidd. Hefyd, yn ddiweddar, rhoddodd Dr Brablecova gípolwg ar y dirwedd wleidyddol cyn etholiadau arlywyddol Chile ar raglen radio *Newshour* y BBC.

Zürich

Yn dilyn cyfraniad WISERD yn arolwg rhyngwladol Children's Worlds, cafodd papur ymchwil, mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE), ar les goddrychol cymharol plant mewn gofal, ei gyflwyno ar-lein mewn cynhadledd ryngwladol. Cyflwynwyd *The Perspective of the Child* gan Gymdeithas Wyddonol Ewrop ar Ofal Preswyl a Theuluoedd i Blant a Phobl Ifanc (EUSARF).

Munich

Dyfarnwyd Cymrodoriaeth Ymweld fawreddog Simone Veil i Dr Giada Laganá o Brifysgol Caerdydd yn Project House Europe, Ludwig-Maximilians-Universität München, lle treuliodd yr haf ar gyfnod preswyl ar gyfer ei hymchwil ar yr Undeb Ewropeaidd ac adeiladu heddych. Mae Dr Laganá hefyd wedi cwblhau llyfr yn ddiweddar, a gyhoeddwyd gyda Palgrave Macmillan yn dwyn y teitl *The European Union and the Northern Ireland Peace Process*.

Cymanwlad y Gwladwriaethau Annibynnol

Cyhoeddwyd ymchwil newydd ar gymdeithas sifil, lles a hawliau pobl ag anableddau yn yr hen Undeb Sofietaidd gan gyd-gyfarwyddwr WISERD, yr Athro Paul Chaney, yn 2021 yn y cyfnodolyn *Europe-Asia Studies* gan Routledge. Mae'r ymchwil yn dadansoddi safbwyntiau sefydliadau cymdeithas sifil ar weithredu'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau mewn naw cyn-wladwriaeth Sofietaidd, a ailenwyd yn Gymanwlad y Gwladwriaethau Annibynnol: Armenia, Azerbaijan, Belarws, Kazakhstan, Kyrgyzstan, Moldofa, Ffederasiwn Rwsia, Tajikistan ac Uzbekistan.

India a Bangladesh

Mae llyfr newydd yn dwyn y teitl *Civil Society and Citizenship in India and Bangladesh*, a gyhoeddwyd yn 2021 gan gyd-gyfarwyddwr WISERD, yr Athro Paul Chaney, a Dr Sarbeswar Sahoo o Sefydliad Technoleg Delhi, India yn cyflwyno ymchwil amlddisgyblaethol sy'n archwilio'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu cymdeithas sifil yn India a Bangladesh.

Yr Eidal

Cyhoeddwyd erthygl gan yr Athro Anrhydeddus a Chymrawd Emeritws Leverhulme, John Morgan, mewn papur dyddiol blaenllaw yn yr Eidal, *Corriere della Sera*, ym mis Medi, yn dwyn y teitl: *Learning to live: An era poised between enlightenment and obscurantism*. Cyflwynodd yr Athro Morgan hefyd ddarlith a gweithdy allweddol i'r gynhadledd: *Living together with ambiguities – Different cultures and common values?*, a drefnwyd gan y Fondazione Intercultura Onus, Fflorens, yr Eidal (2-4 Medi).

Cyhoeddiadau

Mae WISERD yn cynhyrchu amrywiaeth o gyhoeddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd academiaidd, polisi ac ymarferwyr, gan gynnwys cylchlythyrau a blogiau.

Yn 2021, cyhoeddodd WISERD dros **77** o gyhoeddiadau academiaidd, gan gynnwys:

- **39** o erthyglau mewn cyfnodolion
- **21** o lyfrau a phenodau mewn llyfrau
- **11** o adroddiadau a briffiau
- **6** arall

Yn 2021, cyhoeddodd WISERD 39 o flogiau.

Gallwch ddarllen y rhain ar ein gwefan: www.wiserd.ac.uk/blogs.

Ers 2008, mae WISERD wedi cyhoeddi dros **800** o gyhoeddiadau academiaidd, gan gynnwys:

- **550+** o erthyglau mewn cyfnodolion
- **136** lyfrau a phenodau mewn llyfrau
- **137** o adroddiadau a briffiau

Erthyglau cyfnodolion a gyhoeddwyd ers 2016

17.4%

Allbynnau yn y canraddau dyfynnu uchaf
Cyhoeddiadau yn y 10% o gyfnodolion a ddyfynnir fwyaf yn fyd-eang

18.1%


Cydweithio rhyngwladol
Cyhoeddiadau a ysgrifennwyd ar y cyd â sefydliadau mewn gwledydd eraill

37.8%

Cyhoeddiadau yn y canraddau cyfnodolion uchaf
Cyhoeddiadau yn y 10% uchaf o gyfnodolion yn ôl Canradd CiteScore

© 2021 Elsevier B.V. Cedwir pob hawl. Mae SciVal, RELX Group a'r symbol RE yn nodau masnach i RELX Intellectual Properties SA, a ddefnyddir o dan drwydded

Roedd erthyglau WISERD mewn cyfnodolion rhwng 2016 a 2021 yn ymdrin ag ystod o feysydd pwnc:



Cyfres lyfrau Cymdeithas Sifil a Newid Cymdeithasol WISERD

Cyhoeddwyd teitlau pellach yng nghyfres lyfrau WISERD gan Policy Press yn 2021.


Golygyddion y gyfres yw'r Athro Ian Rees Jones a'r Athro Paul Chaney, Prifysgol Caerdydd a'r Athro Mike Woods, Prifysgol Aberystwyth. Mae'r gyfres yn cynnwys set graidd o gyfrolau wedi'u golygu yn adrodd am ganfyddiadau ymchwil o bob rhan o Ganolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD, a ariennir gan ESRC. Bydd teitlau dethol yn y gyfres ar gael gyda mynediad agored.

Lansiwyd y teitlau canlynol yn 2021:

Teitlau i ddod yn 2022:




City Regions and Devolution in the UK
Gan David Beel, Martin Jones ac Ian Rees Jones



Local Civil Society
Gan Robin Mann, David Dallimore, Howard Davis, Graham Day a Marta Eichsteller



Analysing the Trust-Transparency Nexus
Gan Ian Stafford, Alistair Cole a Dominic Heinz



Civil Society in an Age of Uncertainty: Institutions, Governance and Existential Challenges
Golygwyd gan Paul Chaney a Ian Rees Jones

Lansiwyd y gyfres ym mis Hydref 2020 gyda'r teitlau canlynol:




The Foundational Economy and Citizenship
Golygwyd gan Filippo Barbera ac Ian Rees Jones



Putting Civil Society in its Place
Gan Bob Jessop



Civil Society and the Family
Gan Esther Muddiman, Sally Power a Chris Taylor



Civil Society through the Lifecourse
Golygwyd gan by Sally Power

Gweler rhagor o gyhoeddiadau ar ein gwefan: www.wiserd.ac.uk/publications.



Gweler rhagor o gyhoeddiadau ar ein gwefan

Gweithdai meysydd diddordeb ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau, Mawrth 2021

Cynhaliodd WISERD ddau weithdy ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau lle gwahoddwyd ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd i gyflwyno ymchwil sy'n cyd-fynd â meysydd diddordeb ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Lansiad Llyfr WISERD ac Economiâu'r Dyfodol, Mai 2021

Gyda Chanolfan Ymchwil Prifysgol Economiâu'r Dyfodol ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion, cynhaliodd ddigwyddiad ar-lein i lansio *City Regions and Devolution in the UK* (y diweddaraf yng nghyfres Cymdeithas Sifil a Newid Cymdeithasol WISERD gyda Policy Press) a *The Political Economy of Industrial Strategy in the UK*.

Darlith Flynyddol Canolfan

Gwleidyddiaeth a Chymdeithas

Cymru 2021: 'Dangos gwir liwiau: gwleidyddiaeth newidiol cydraddoldeb hiliol yng Nghymru', Mehefin 2021

Cydraddoldeb hiliol yng Nghymru oedd ffocws Darlith Flynyddol Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru (CWPS) eleni, a gyflwynwyd gan yr Athro Charlotte Williams OBE, ac a fynychwyd gan dros 200 o bobl ar-lein. Gallwch ddarllen adroddiad WISERD, *WISERD Research on Race and Ethnicity*, ar ein gwefan: www.wiserd.ac.uk/cy.

Gallwch wyllo recordiadau or ai o'n digwyddiadau ar-lein:

www.wiserd.ac.uk/cy/digwyddiadau.

Cyfes Haf WISERD, Gorffennaf 2021

IYn lle ein Cynhadledd Flynyddol, cynhaliwyd Cyfes Haf eleni, yn cynnwys pedwar digwyddiad ar-lein:

- Sefydliadau cymdeithas sifil Roma yn Ewrop: Llywio ansicrwydd yng nghyfnod Brexit a COVID-19
- Economi sylfaenol bywyd yn ystod COVID-19 - Cyfraniad rhwydweithiau bywyd newydd
- Lles a chyfranogiad cymdeithasol: addysg, ymgysylltu diwylliannol ac iechyd
- Lansio Rhwydwaith Ymchwil Mudo Cymru a phrif anerchiad gan Dr Gwennan Higham, Prifysgol Abertawe

Fe wnaethom hefyd gynnal ein Cystadleuaeth Poster PhD o dan nawdd caredig Cymdeithas Ddysgedig Cymru a Phartneriaeth Hyfforddiant Doethurol ESRC Cymru. Cynhelir Cynhadledd Flynyddol WISERD 2022 ym Mhrifysgol Abertawe a'r thema yw 'Cymdeithas sifil a chyfranogiad: materion cydraddoldeb, hunaniaeth a chydlyniant mewn tirwedd gymdeithasol sy'n newid'.

Adnewyddu Sylfaenol: Trawsnewid systemau dibyniaeth yn sgil COVID-19, Medi 2021.

Daeth trydedd gynhadledd economi sylfaenol WISERD, a gynhaliwyd ar-lein, â dros 100 o ymchwilwyr, ymarferwyr a llunwyr polisi ynghyd o bob cwr o'r byd. Ymunodd Lee Waters AoS, y Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd, â ni hefyd.

Gŵyl Gwyddorau Cymdeithasol ESRC, Tachwedd 2021

Cynhaliodd ymchwilwyr WISERD dair Gŵyl Gwyddorau Cymdeithasol yn rhoi sylw i ddiweithdra ymhlith pobl ifanc a chymdeithas sifil yng nghyd-destun datganoli, systemau bywyd cymunedol lleol a phrosiect gwyddoniaeth dinasyddion sy'n archwilio monitro ansawdd aer.

Cyfes seminarau ar-lein

Rydym wedi cyflwyno 29 o seminarau ar-lein yn 2021, sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau a gyflwynwyd gan ymchwilwyr WISERD a siaradwyr gwadd, ac fe'u rhannwyd â rhai o'n partneriaid allanol.

Sesiynau hyfforddi a meithrin gallu (HMG)

Rydym wedi cyflwyno pum sesiwn yn 2021:

- Cyflwyniad i QGIS
- Ymchwil gweithredu cyfranogol
- Dadansoddi rhwydweithiau cymdeithasol
- Mapio cysyniadau grŵp
- Sut i ysgrifennu blogiau

Sesiynau'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dulliau Ymchwil (NCRM)

Mae WISERD ymhlith y naw canolfan bartner sy'n gweithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dulliau Ymchwil (NCRM) i gyflwyno cyfnod newydd o hyfforddiant arloesol a gweithgareddau cynyddu capasiti. Bydd y rhain yn ymwneud â defnyddio technegau a dulliau ymchwil creiddiol a blaengar.

Rydym wedi cyflwyno pedair sesiwn yn 2021:

- Defnyddio pyrrth data'r DU i ddod o hyd i ddata a'i werthuso at ddibenion ymchwil i'r gwyddorau cymdeithasol
- Dadansoddi a chyflwyno ymchwil dulliau cymysg
- Cyd-gynhyrchu mewn ymchwil
- Awtomeiddio proses llunio mapiau QGIS

Sylw gan y cyfryngau

Mapio mynediad i wasanaethau bancio

Cafodd ymchwil ar fapio mynediad i wasanaethau bancio gan yr Athro Mitch Langford ym Mhrifysgol De Cymru ei chynnwys mewn erthygl ar wefan Ymchwil y Senedd ym mis Chwefror.

'Mae 'na ganoliaeth newydd yn Llundain... bydd baneri Jac yr Undeb yn hedfan yn lle sêr Brwsel'

Cafodd yr Athro Kevin Morgan, arbenigwr mewn llywodraethu a datblygu o Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd, ei gyfnewid fel rhan o gyfres ar effaith Brexit ar wahanol sectorau yn Ne Cymru, a gafodd sylw yn y *Western Mail* a'r *South Wales Echo* ym mis Medi.

Mae Cymru'n ailfeddwl ei lle yn y DU – a allai arwain y ffordd i bawb arall?

Dyfodol Cyfansoddiadol: mae'r prosiect, dan arweiniad Anwen Elias, wedi bod yn treialu ffyrdd arloesol o gynnwys dinasyddion gyda dadleuon am ddyfodol cyfansoddiadol Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi llywio erthyglau yn *The Conversation*, *The Western Mail* a *The Welsh Agenda* yn 2021.